# Canolbwyntio ar Anableddau a Salwch

Hwb
Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

http://www.northwalescollaborative.wales/

Mawrth 2022

# Rhaglen

1. Y cynllun
2. Ynglŷn â'r pwnc
3. Ein casgliadau
4. Cymuned Ymholi
5. Cynllun gweithredu

# Y cynllun

Heddiw

1. Gosod y cyd-destun: ystadegau, asesu anghenion, ymchwil a'r tirlun polisi.
2. Beth mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthym ni?
3. Sut mae gwasanaethau yn ymddangos nawr? Beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella?
4. Myfyrio a thrafod Cymuned Ymholi
5. Rhannu'r hyn rydym ni wedi'i ddysgu a'r hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud.

Plant a phobl ifanc a'r sefydliadau sydd yn eu cefnogi

# Ynglŷn â'r pwnc:

- Mae'r diffiniad o blant a phobl ifanc gydag anableddau a/neu salwch yn eang.
- Nid oes yna gofrestr lawn o anabledd na salwch.

# Ein casgliadau

Bylchau mewn gofal seibiant yng Ngogledd Cymru:


- Llety lleol cyfyngedig ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth.
- Dim digon o lety seibiant yn y rhan fwyaf o ranbarthau.
- Dim digon o ofalwyr maeth egwyl fer gyda sgiliau arbenigol.

**Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaeth Di-dor ar gyfer Pobl sydd ag Anableddau Dysgu**



**6,440**

Plant sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl yng Ngogledd Cymru (amcangyfrifiad 2022)



**660**

o blant anabl yn derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol yng Ngogledd Cymru (ystadegau 2021)

*fy*
*swydd fel nyrs arbenigol ar ôl 23 o*
*flynyddoedd i*
*ofalu am fy merch yn llawn amser, gan nad*
*oes unrhyw gefnogaeth iddi."*

Dyfyniad gan riant o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022

# Amser Ni

Mae Amser Ni yn brosiect yng Ngwynedd ac Ynys Môn sy'n darparu egwyliau byr i blant a phobl ifanc gydag anableddau a salwch.

Mae'n well gan Amser Ni y term 'egwyliau byr' na 'gofal seibiant' gan ei fod yn swnio'n fwy cadarnhaol ac nad oes ystyr negyddol ynghlwm â'r term lle mae'r plentyn yn swnio fel byrdwn.

Mae yna astudiaeth achos o Amser Ni o fewn y Pecyn Gwaith.

# Astudiaeth achos Amser Ni

Cafodd bachgen 14 oed ei gyfeirio at Amser Ni. Mae wedi cael diagnosis o awtistiaeth gydag anawsterau dysgu cysylltiedig, a hefyd mae wedi cael diagnosis yn ddiweddar o ddiabetes math 1. Mae'n byw gyda'i rieni a'i chwaer hŷn. Yn dilyn y diagnosis o ddiabetes, cynyddodd y gofalu amdano a'i anghenion meddygol ac o ganlyniad i lefelau siwgr ansefydlog roedd yn rhaid i'w rieni fod yn effro yn ystod y nos hefyd.  Roedd yn dod yn gynyddol ynysig gartref ac yn gwrthod mynd allan i'w rieni. Roedd ei deulu yn cael trafferth ac eisiau mynediad i gefnogaeth gofal seibiant. Roedd ei deulu yn ei chael yn anodd iawn i ofalu amdano a hefyd yn teimlo'n euog iawn nad oeddent yn gallu treulio amser gyda'i chwaer gan eu bod bob amser yn canolbwyntio ar ofalu am eu mab.

Mae'r bachgen wedi setlo'n dda yng nghartref y gofalwyr maeth. Mae'n hapus ac mae ganddo berthynas dda gyda'i ddau ofalwr maeth. Yn ystod ei arhosiad mae'n cael sylw un i un sydd wedi ei annog i ddatblygu sgiliau newydd. Mae'n dysgu sut i siopa am fwyd a sut i goginio a glanhau ar ei ôl. Hefyd mae'n gallu cael profiadau na fyddai'n gallu eu cael gartref fel teithiau cerdded yn yr awyr agored yn lleol, ymweld â'r traeth, nofio a mynd i'r sinema.

Mae'r bachgen ifanc yn gallu treulio amser gwerthfawr gyda'i ofalwr maeth a chael profiadau newydd ac mae ei deulu yn gallu gorffwys a magu nerth drwy gael egwyl o'u rôl yn gofalu a fydd yn eu galluogi nhw i barhau i ofalu amdano yn y dyfodol. Fe fydd y bachgen ifanc yn parhau i gael cynnig egwyl fer reolaidd o un penwythnos ym mhob 6 wythnos.

# Gwersi o leoedd eraill

Mae Gofal a Rennir Yr Alban (2022) yn gasgliad o enghreifftiau o egwyliau byr arfer da a gofal seibiant.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr weledigaeth o egwyliau byr ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anableddau a salwch.

Fe archwiliodd y Cyngor dros Blant Anabl egwyliau byr a dewis enghreifftiau dysgu allweddol.

Fe allai ymyrraeth ochr yn ochr ag egwyliau byr i gefnogi rhieni fod o fudd.

# Fideos a grëwyd gan 'Respitality' fel enghreifftiau o arfer da.

[Stori Roseann](#)
(45 eiliad)




[Beth yw Respitality?](#)
(1:28 animeiddiad)



# Cymuned ymholi

Gofal seibiant ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anableddau a/neu salwch.